# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 24 Mawrth 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog restru ei apwyntiadau ar gyfer dydd Mawrth 17eg Mawrth 2009? (WAQ53791)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yn ogystal â'm cyfarfod Grŵp arferol a'r ymrwymiadau Cyfarfod Llawn, cefais gyfarfodydd â Dirprwy Brif Weinidog Cymru a chydag Elin Jones yn fy Swyddfa Breifat. Gwnes hefyd annerch y derbyniad Dydd Gŵyl Padrig yn Swyddfa Is-gennad Iwerddon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Faint o fyfyrwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a fethodd gyflawni TGAU gradd C mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53789)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Faint o fyfyrwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd TGAU gradd A* mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ53790)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Cedwir data wedi'i baru sy'n cysylltu nodweddion disgyblion o CYBLD a data cyrhaeddiad yn CA4 yn y Gronfa Ddata Disgyblion Genedlaethol. Fodd bynnag, dim ond dangosyddion perfformiad dethol sydd yn y set data wedi'i baru yng Nghyfnod Allweddol 4 ac nid yw ar gael ar gyfer pynciau unigol. Ceir data ar gyfer y dangosyddion allweddol hyn yng Nghyfnod Allweddol 4, yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim, 2005-2007 a 2006-2008 yn nhabl 8 o fwletin ystadegol blynyddol 'Cyflawniad Academaidd a Hawl i Brydau Ysgol am Ddim', dolenni isod.

http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2008/hdw20080326/?skip=1&lang=cy
http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2009/hdw200903191/?skip=1&lang=cy

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu i ymgyrchoedd a mudiadau i fynd i'r afael â gordewdra ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ53802)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian ar gyfer dwy ymgyrch gordewdra fawr ers mis Mawrth 2004; ymgyrch Big Fat Problem y BBC ac yn ddiweddarach Newid Am Oes. Rydym hefyd yn ariannu rhaglen gordewdra ymhlith plant, MEND. Wedi'i lansio ym mis Ionawr eleni, bydd MEND yn cefnogi 2,000 o blant a'u teuluoedd i reoli eu problemau iechyd. Ceir manylion am wariant sy'n targedu gordewdra yn uniongyrchol dros y pum mlynedd ddiwethaf isod.

| | |
|---|---|
| 2004/05 | £91,239 |
| 2005/06 | £-- |
| 2006/07 | £10,318 |
| 2007/08 | £-- |
| 2008/09 | £311,357 |

Yn ogystal mae nifer o raglenni iechyd cyhoeddus yn cyfrannu at yr agenda hon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu i ymgyrchoedd a mudiadau i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ53800)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £34,924,458 o'u Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i frwydro camddefnyddio alcohol a sylweddau cyfunol dros y pum mlynedd ddiwethaf.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu i ymgyrchoedd a mudiadau i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a/neu sylweddau ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ53801)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyfanswm o £56,852,034 i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i frwydro camddefnyddio sylweddau dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn ogystal pennwyd £43,762,128 yn ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol.
Gweler y tabl isod:

| | **2004/05** | **2005/06** | **2009/07** | **2007/08** | **2008/09** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw SMAF** | £7,651,679 | £9,251,679 | £10,147,676 | £13,701,000 | £16,100,000 | **£56,852,034** |
| **Dyraniad camddefnyddio sylweddau a neilltuir 0.4% y GIG** | £7,822,156 | £8,017,710 | £8,378,507 | £8,671,755 | £10,872,000 | **£43,762,128** |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu i ymgyrchoedd a mudiadau i fynd i'r afael â thrais domestig ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ53804)

**Brian Gibbons:** Mae manylion am y cymorth ariannol a roddwyd i'r Grant Cam-drin yn y Cartref (a sefydlwyd yn 2002/03) ar gyfer ymgyrchoedd a sefydliadau i frwydro trais domestig ym mhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

**Grant Cam-drin yn y Cartref**

| **Blwyddyn** | **Swm £m** |
|---|---|
| 2004 - 2005 | 1.449 |
| 2005 - 2006 | 1.776 |
| 2006 - 2007 | 1.804 |
| 2007 - 2008 | 3.631 |
| 2008 - 2009 | 3.700 |